



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

15 Ionawr 2021

10:30 yb – 12:30 yp

Trwy gyfrwng MS Teams

Yn bresennol: Mary Wimbury (MWim) (is-gadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Morwena Edwards, Chris Stockport, y Cyng. Bobby Feeley, y Cyng. Joan Lowe, y Cyng. Louise Emery, y Cyng. Dafydd Meurig, Estelle Hitchon, Fon Roberts, Helen Corcoran, Jenny Williams, John Gallanders (JGa), John Gladston (JGI), Judith Greenhalgh (JGr), Kevin Roberts, Llinos Medi Huws, Mark Wilkinson (MWil), Nicola Stubbins, Peter Williams, Rob Smith, Roma Hooper, Sam Parry, Shan Lloyd Williams

Ymddiheuriadau: Teresa Owen, Bethan E Jones, Catherine Elaine Jones, y Cyng. Christine Jones, Ffion Johnstone, Neil Ayling, Dr Lowri Brown, Lucy Reid

Hefyd yn bresennol: Bethan Roberts, Swyddfa Archwilio Cymru

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd Mary Wimbury, yr is-gadeirydd, bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod. Diolchodd yr is-gadeirydd hefyd i KR am ei gefnogaeth a'i gyfraniad ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a dymunodd yn dda i KR ar ei ymddeoliad.

2 Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 11.12.2020 yn gywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd.

3 Grŵp Iechyd a Gofal

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad ar lafar ynghylch y Grŵp Iechyd a Gofal Strategol gan JG.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion Covid-19 yng ngogledd Cymru yn yr wythnosau diwethaf, gan roi pwysau mawr ar ofal iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig yn y Dwyrain. Mae trafferthion staffio mawr wedi bod mewn cartrefi gofal awdurdodau lleol a rhai preifat, ynghyd â heriau mewn perthynas â chynaliadwyedd cartrefi gofal.

Mae'r Grŵp Cydlynny Strategol wedi sefydlu dau grŵp newydd i ddelio â'r pwysau sylweddol sydd ar y system ar hyn o bryd:

- Mae Cell Arian wedi'i chreu i gefnogi'r strategaeth frechu.
- Grŵp Cell Efydd i reoli problemau sylweddol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a chartrefi gofal (staffio yn bennaf).

Gofynnodd y Cyng. LIMH am gael cydnabod y gefnogaeth barhaus a roddir gan yr holl bartneriaid i fynd i'r afael â'r pwysau a'r heriau sydd ynghlwm â chynnal pob gwasanaeth.

Rhoddodd JG hefyd gydnabyddiaeth i'r gwaith ar y cyd rhagorol a wneir i liniaru'r argyfwng cartrefi gofal gan awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus, sy'n gwneud eu gorau yng nghanol hyn i gyd.

4 Effaith y sefyllfa Covid-19 gyfredol ar wasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan MWil ar gais y Cyng. JL am wybodaeth ar ganslo gofal wedi'i gynllunio ar draws y rhanbarth, yn enwedig mewn perthynas â thriniaethau canser a llawdriniaethau oedd wedi'u cynllunio

Rhoddodd MWil wybod, oherwydd y pwysau mawr ar draws y rhanbarth, yn enwedig yn y Dwyrain:

- Bod uwch reolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi penderfynu'n anfodlon y byddai triniaethau dewisol yn cael eu canslo ar draws gogledd Cymru er mwyn darparu mwy o gapasiti yn y tri phrif ysbyty.
- Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bwriadu symud cymaint o wasanaethau â phosibl, ynghyd â rhai llawdriniaethau dewisol, o Ysbyty Maelor i Ysbyty Gwynedd o 18.1.2021 ymlaen.

Nododd MWil fod Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn wynebu sefyllfa anodd iawn ar hyn o bryd. Nid yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ysgafn, a chydabyddir pwysigrwydd a sensitifrwydd pob penderfyniad.

Diolchodd y Cyng. JL am y diweddariad, gan ei fod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar y sector yn lleol.

Eglurodd CS fod pob penderfyniad yn cael ei wneud gan arweinwyr clinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a grŵp o uwch weithwyr y Bwrdd, a hynny ar sail risg a chan ystyried beth sydd orau i gleifion.

Nododd y Cyng. JL, o'i safbwynt ei hun, bwysigrwydd rhoi diweddariadau cyson i aelodau etholedig fel y gallant roi'r wybodaeth ddiweddaraf a chywiraf i'r cyhoedd er mwyn lleddfu'u pryderon.

Nododd MWil bwynt y Cyng. JL, gan nodi y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gwneud y gorau o'r potensial o ddefnyddio aelodau etholedig fel sianel gyfathrebu pan fydd y cynllun brechu torfol yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol.

Rhoddodd CS drosolwg i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o effaith y sefyllfa Covid-19 bresennol ar wasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

- Gwelir patrwm tebyg i'r don gyntaf o Covid-19 ar draws gogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol yn y pedair wythnos ddiwethaf yn nhermau effaith, gyda deiliadaeth gofal critigol yn cynyddu yn y tri ysbyty aciwt, a darperir llawer o ofal critigol y tu allan i wardiau gofal critigol hefyd.
- Mae rhai ardaloedd yn y rhanbarth yn fwy amlwg na'i gilydd. Gwelir cyfradd uchel yn Wrecsam a Sir y Fflint yn benodol, gyda llai o niferoedd wrth symud tua'r Gorllewin.
- Mae chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru'n adrodd cynnydd yn y niferoedd o wythnos i wythnos, ac mae hyn yn achosi heriau sylweddol, yn enwedig yn Ysbyty Maelor (YM). Mae'r niferoedd o gleifion mewnol yn YM wedi mynd y tu hwnt i niferoedd y don gyntaf, gyda'r Uned Gofal Dwys yn gwbl lawn.
- Mae problemau staffio wedi bod, ac mae'r sefyllfa'n debygol o waethygu dros yr wythnosau nesaf.
- Ymdrechir i symud y gweithgarwch er mwyn osgoi canslo'r holl wasanaethau er mwyn gallu delio â'r pwysau mwyaf, gyda'r gwaith brechu mewn Cartrefi Gofal yn digwydd ochr yn ochr.
- Cyfathrebir negeseuon pwysig i'r cyhoedd, y dylent wneud eu gorau i helpu a chadw at reolau cadw pellter cymdeithasol. Nid yw Covid-19 yn gyflwr sy'n effeithio ar yr henoed yn unig. Er bod mwy o achosion ymysg pobl hŷn, mae unigolion ifanc a heini wedi gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd y cyflwr, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi trin unigolion iau na 30 oed yn ystod y pandemig.

Cynigiodd JGa sylw ynghylch pobl yn dal yr haint mewn ysbytai, gan ei fod yn ymwybodol nad yw perthnasau nac ymwelwyr yn cael ymweld. Mae cleifion yn cael eu rhyddhau o ysbytai'n barhaus ac mae danfoniadau i ysbytai yn peri risg o heintio pobl.

Nododd CS bwynt JGa gan ddweud fod y Bwrdd Iechyd yn delio â hyn.

Nododd JGa hefyd bod cwmni bysiau Arriva wedi gorfod lleihau'r nifer o fysiau sydd ar y ffordd gan fod gyrwyr wedi profi'n bositif, a bod hynny'n ei gwneud yn bosibl y bydd pobl yn rhannu ceir i fynd i'r gwaith.

Cynigiodd KR gyfathrebu'n glir er mwyn sicrhau'r cyhoedd na ddylent fod ag ofn mynd i'r ysbyty, a chynigiodd ddefnyddio aelodau etholedig fel sianel i gyfathrebu'r neges bwysig hon.

Nododd CS na fu achosion penodol o bobl yn dal Covid-19 mewn ysbytai hyd yn hyn, a bod bron bawb sy'n ei ddal yn gwneud hynny yn y gymuned.

Ailadroddodd JG, gan nodi'r holl rwydweithiau estynedig a gefnogir gan lechyd Cyhoeddus Cymru, fod yr holl dystiolaeth yn awgrymu bod Covid-19, a'r amrywiolyn newydd yn benodol, yn cael ei drosglwyddo yn y gymuned rhwng teuluoedd a phobl sy'n dod i gysylltiad agos â'i gilydd.

Diolchodd y Cadeirydd i MWil a CS am eu diweddariad cynhwysfawr.

5 Brechlyn Covid-19

Rhoddodd CS ddiweddariad llafar cynhwysfawr yn absenoldeb FJ:

- Mae'r gwaith yn mynd rhagddo drwy gyfrwng Grŵp Cydlynu Cell Arian, rhan o'r Fforwm Cymru Gydnerth.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn arwain ar y gwaith logistaidd anferth hwn ar y cyd â'r holl bartneriaid.
- Bu heriau cyn y Nadolig oherwydd y brechlyn Pfizer gan fod angen ei gadw ar dymheredd o -60 gradd selsiws mewn sypiau o 1000 a bod angen eu defnyddio i gyd unwaith maent wedi'u hagog. Nid yw'r brechlyn yn teithio nac yn symud yn dda, gan arwain at anawsterau wrth frechu nifer fechan o bobl mewn ardaloedd gwledig.
- Mae brechlyn AstraZeneca Rhydychen wedi trawsnewid y rhaglen frechu gan ei fod yn rhoi mwy o opsiynau a chan ei bod yn bosibl ei ddarparu drwy ofal sylfaenol ac yn y gymuned.
- Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn peilota model brechu mewn fferyllfeydd cymunedol yn y Gorllewin, gan ddefnyddio brechlyn AstraZeneca Rhydychen.

Bwriedir brechu'r cohortiau canlynol cyn diwedd Ionawr, gan ddilyn canllawiau a dderbyniwyd gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI):

- Preswylwyr cartrefi gofal, staff cartrefi gofal, pobl dros 80 oed, staff rheng flaen y Bwrdd lechyd, staff rheng flaen gofal cymdeithasol a gofal cartref ac unrhyw staff rheng flaen eraill ym maes gofal.
- Erbyn canol Chwefror bwriedir brechu: Pob claf mewnol a phawb dros 70 oed.

Gofynnodd MWin sut y byddai'r Bwrdd lechyd yn goruchwylio pob brechiad Pfizer o un pecyn unwaith y byddai wedi dadmer.

Bydd y tair Canolfan Frechu Torfol yn dechrau gweithredu saith niwrnod yr wythnos ar unwaith, ac mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo. Ni fydd mwy na llai o bobl na'r nifer o ddosau sydd ar gael yn cael eu gwahodd i ddod i gael eu brechu. Fel mesur wrth gefn, cysylltwyd ag unigolion o'r cohort nesaf fel y byddant ar gael i ddod i gael eu brechu ar fyr rybudd. Hyd yn hyn, nid yw gwastraffu dosau wedi bod yn broblem sylweddol yng ngogledd Cymru.

Cadarnhaodd CS fod nifer uwch o staff rheng flaen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi derbyn y llwyth cyntaf o frechlynnau ar ddiwedd 2020 na staff rheng flaen gofal cymdeithasol, a hynny gan ei bod yn haws brechu staff y Bwrdd Iechyd wrth ddelio â phroblemau'r brechlyn Pfizer. Mae pob aelod o staff rheng flaen gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth bellach wedi derbyn gwahoddiad i gael eu brechu.

Nododd ME fod pryder yn y Gorllewin oherwydd y pellter hir rhwng Canolfan Frechu Torfol Bangor a staff cartrefi gofal a staff eraill a gaiff flaenoriaeth mewn ardaloedd gwledig, a gwnaed cais i ddefnyddio brechlyn Rhydychen mewn cyd-destunau gofal sylfaenol a chymunedol.

Gofynnodd PW ai'r brechlyn Pfizer a roddir fel ail ddos i rywun a gafodd y brechlyn Pfizer fel dos gyntaf.

Cadarnhaodd CS hynny, a chadarnhaodd hefyd pam fod penderfyniad wedi'i wneud i roi naill ai'r brechlyn Pfizer neu'r un Rhydychen mewn lleoliadau ar draws y rhanbarth, h.y. ni fydd un lleoliad yn rhoi'r ddau frechlyn (Pfizer a Rhydychen).

Rhoddodd CS gydnabyddiaeth i waith y tîm cyfan yn rhoi hyn ar waith. Dylai'r gwaith fynd rhagddo'n ddi-oed dros yr ychydig wythnosau nesaf.

Holodd SLW a oes gwaith yn cael ei wneud ar frechu unigolion digartref, a hefyd pryd / sut y bydd staff nad ydynt yn gweithio i Awdurdod Lleol na sefydliad iechyd, ond sy'n cefnogi pobl ddiamddiffyn mewn llochesau a Thai Gofal Ychwanegol, ac yn cefnogi adrannau tai a phobl ddigartref, yn cael eu brechu.

Dywedodd CS y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn ateb y cwestiwn yn fuan.

Cam Gweithredu

- CS i roi adborth ar yr uchod

6 Diweddariad canol-blwyddyn Grantiau Gofalwyr

Yn absenoldeb FJ, gohiriwyd yr eitem hon, a'i rhoi ar agenda mis Chwefror.

Cam Gweithredu

- Diweddariad Canol Blwyddyn Grantiau Gofalwyr ar agenda mis Chwefror - RW

7 Grant Adfer ar Gyfer Gwirfoddoli – John Gallanders; John Gladstone; Roma Hooper

Rhoddodd JGa wybod nad oedd cyflwyno un cynnig ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bosibl ar hyn o bryd gan fod yr amserlen a roddwyd gan Lywodraeth Cymru'n cael ei hystyried yn afrealistig —cyllid i'w wario rhwng 15 Ionawr a diwedd Mawrth 2021.

Fodd bynnag, mae nifer o brosiectau wedi'i datblygu ar draws partneriaeth Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Awdurdodau Lleol a Iechyd:

- Cyflwynodd Wreccsam gais yn enw Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wreccsam fel consortiwm gyda thîm gwirfoddoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam am £67k, sy'n sylweddol is na'r uchafswm o £200k sydd ar gael i bob sir.
- Mae Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ynys Môn hefyd wedi cyflwyno ceisiadau.

Disgwylir cyhoeddiad ynghylch y cynigion gan Lywodraeth Cymru heddiw, 15.1.2021.

Awgrymodd JGI sefydlu is-grŵp Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i baratoi at unrhyw gyfleoedd cyllid yn y dyfodol.

Nododd JW ei siom fod y rhanbarth wedi methu trefnu cais ar y cyd gan fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi trafod sawl tro werth y Trydydd Sector fel partneriaid cydradd. Ffafiai JW sefydlu is-grŵp i ystyried, trafod a threfnu cynlluniau ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol.

Cytunodd BJE i drefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr Trydydd Sector y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn dechrau'r broses ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

Cam Gweithredu

- BJE i drefnu cyfarfod gyda JGa/JGI/RH

8 Unrhyw fater arall

Rhoddodd MWim wybod am ddogfen ymgynghori ddiweddar gan Lywodraeth Cymru - Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth, a gofynnodd am gael cynnwys hyn ar agenda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Cam Gweithredu

- Ailgydbwysu Gofal a Chymorth ar agenda Chwefror/Mawrth - RW